

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

ECAD6012C 1700357

Thema Seiliedig

Gellir mabwysiadu thema berthnasol i gynhyrchu’r dysgu mewn amrywiaeth eang o bynciau trwy’r model yma. Ni ddylid unrhyw bwnc gael ei gynnwys yn y model yma yn ddiangen ond yn bwrpasol i ddyfnhau dealltwriaeth o’r thema dan sylw. Gweler isod esiamplau o’r model yma ar waith i ddosbarthiadau yng Nghyfnod Allweddol 2.

Y thema dan sylw a fydd yn uno’r holl weithgareddau yw’r Yr Ail Ryfel Byd. Thema hollbwysig yn y gymuned leol yn ogystal ag yn fyd-eang. Ystyriwch mi fydd y gweithgareddau yma yn cael ei gynnal dros gyfnod o amser i’w gwblhau.

Llythrennedd -. Yn ystod gwersi iaith mi fydd disgyblion yn dod yn gyfarwydd ag arddull o greu ymson. Cynnwys yr ymson yw ddiwrnod ym mywyd faciwi. Cyfle iddynt arbrofi â theimladau trwy ddychmygu nhw yw’r faciwi.

Rhifedd – Y wers mi fydd yn deillio o’r thema yw defnyddio eu sgiliau plotio ar fap i ddod o hyd i’r llefydd yn Abertawe a chafwyd ei effeithio gan y bomio, gan fynegi’r cyfesurynnau. Cyfle i ddefnyddio elfennau o Hanes a Daearyddiaeth i’r disgyblion ymhelaethu eu sgiliau rhifedd yw’r gweithgaredd yma. Cysylltiad clir â’r Cwricwlwm 2022 a phedwar diben Donaldson wrth iddynt “astudio profiadau dynol yn y gorffennol a’r presennol, ar raddfeydd lleol, cenedlaethol a byd-eang, yn helpu dysgwyr i ateb y cwestiynau hynny” (Llywodraeth Cymru, 2019).

Cymhwysedd Digidol – Gwelwyd cyfle i’r disgyblion i fod yn greadigol yn ystod y thema yma wrth iddynt greu rhaglen radio mewn paratoad i’w ddathliadau Diwrnod V.E. Hefyd cyfle i’r disgyblion defnyddio sgrin werdd i adrodd ei ymson ar lafar neu greu sgript a’i actio o flaen cefndiroedd o’r cyfnod.

Sgiliau

Llythrennedd – Datblygwyd nifer o sgiliau yn ystod y gweithgaredd wrth “ysgrifennu gyda’r diben yn amlwg gan ddangos ystyriaeth i’r darlennydd... defnyddio technegau wrth gynllunio gwaith ysgrifennu ar gyfer ei wella... defnyddio ffurf safonol amrwyiaeth o ferfau” (Llywodraeth Cymru, 2008).

Rhifedd – Datblygwyd y sgil “darllen, plotio ac ysgrifennu cyfesurynnau mewn un pedrant, *e.e. (2, 4)*” (Llywodraeth Cymru, 2015).

Cymhwysedd Digidol – Sicrhawyd mi fydd y disgyblion yn “dewis a chyfuno ystod o destun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo i sicrhau canlyniad at ddiben penodol; defnyddio dulliau meddalwedd i wella'r canlyniadau ar gyfer cynulleidfaoedd penodol.” (Llywodraeth Cymru, 2008).

Cyflwyniad

Bwriad dysgu’n drawsgwricwlaidd yw sefydlu patrymau gwybodaeth rhwng pynciau academiaidd gwahanol er mwyn sicrhau orfodi gwybodaeth allweddol. Maent yn bwysig i sicrhau fod cysylltiadau rhwng gwersi yn naturiol ac nad ydynt yn cael eu gorfodi yn allweddol i strategaeth ddysgu’n drawsgwricwlaidd llwyddiannus.

Mabwysiadwyd dysgu’n drawsgwricwlaidd wrth i sgiliau, gwybodaeth ac agweddau nifer o ddisgyblaethau yn cael ei gymhwyso i un thema, problem, syniad neu brofiad. Yn ôl Barnes (2011) mae dull trawsgwricwlaidd yn medru cynorthwyo i godi safonau gan fod cynllunio’n ofalus yn hollbwysig yn ystod y broses.

- Mi fydd unrhyw gwricwlwm sy’n bywiogi, cymell, ysgogi ac yn cynnal dysgu defnyddiol o ansawdd uchel yn gwneud gwaith da. Gwelir dulliau trawsgwricwlaidd fel modd i hyrwyddo dysgu sy’n ysgogol iawn i rai, hyd yn oed y mwyafrif o blant. Ymhelaethwyd ar waith John Dewey gan olygu dylai disgyblion chwarae rôl flaenllaw a phersonol wrth ddarganfod gwybodaeth trwy ddatrys problemau ac arbrofi. Cynigwyd fod prosiectau trawsgwricwlaidd gorau yn cyfuno ac yn hyrwyddo meddwl yn greadigol â chynnal trylwyredd a her ddisgyblu. Trwy ddadansoddi data a recordiwyd gan Barnes, nodwyd wyth math gwahanol o addysgu a dysgu’n drawsgwricwlaidd. Gweler isod yr wyth model Barnes:
 - Symbolaidd
 - Hierarchaidd
 - Pwnc Unigol Trosglwyddadwy
 - Thema-Seiliedig
 - Aml-ddisgyblaethol
 - Rhyng-ddisgyblaethol
 - Oportiwristaidd

Gellir defnyddio pob dull cyferbyniol o ddysgu trawsgwricwlaidd o fewn dulliau thematig, prosiect neu bwnc sy’n seiliedig ar y cwricwlwm, ond hefyd gellir deillio o brofiadau neu ddigwyddiadau dosbarth cyfan a gynlluniwyd.

Awgrymwyd Barnes wrth i ni wynebu dyfodol sydd yn newid yn anhagwladwy mae angen dulliau trawsgwricwlaidd arnynt sy’n annog datrysiadau grŵp, dysgu cydweithredol, cyfuniadau creadigol ac i annog datblygiad dysgwyr annibynnol.



Barn am dysgu’n trawsgwricwlaidd

Cytuno



- Dulliau trawsgwricwlaidd yn gallu codi hyder athrawon wrth addysgu pwnc gwahanol (Barnes, 2011).
- “hanfodol er mwyn i ddysgwyr allu cymryd rhan yn llwyddiannus ac yn hyderus yn y byd modern” (Llywodraeth Cymru, 2019).
- Cynigwyd Estyn ysgol sydd yn dangos arfer da o ddysgu’n trawsgwricwlaidd “mae’r ysgol wedi ymdrechu i sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn mwynhau cwricwlwm rhagorol a chyfoethog er mwyn datblygu eu medrau ehangach ar draws y cwricwlwm” (Estyn, 2016).

Anghytuno



- “learning needs the clearly delineated boundaries provided by single-subject teaching” (Hayes, 2010 - 384).
- “Many primary teachers are trained as ‘generalists’ rather than specialists” (Savage, 2010- 11).
- “cross-curricular links between some subjects are more natural than they are between others; for instance, links between music and geography are likely to be more difficult” (Hayes, 2010 – 384).

Pwnc Unigol Trosglwyddiadwy

Model a ganolbwyntiwyd ar un thema yn benodol. Y thema dan sylw a fydd yn uno’r holl weithgareddau yw bwyd. Thema eang iawn ydy hon ac felly mi fydd y posibilïadau yn ddiddiwedd o ran gwersi. Gwelwyd uchod esiamplau o weithgareddau i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2.

Llythrennedd – Cynigwyd y gweithgaredd yma cyfle i’r disgyblion i greu cyfarwyddiadau o beth sydd angen i greu bwyd o’u dewis nhw, gan ddefnyddio unedau priodol wrth nodi’r cynhwysion.

Rhifedd – Gofynnwyd y disgyblion i ymchwilio i fwydydd masnach deg fel rhan o’r dasg. Gan ddefnyddio ymchwil hyn a’i ymchwil flaenorol o dal yr holl bobl sydd yng nglŵm â’r broses, mi fydd y disgyblion yn greu diagram i gyfleu bob canran a dderbyniwyd yr unigolion.

Cymhwysedd Digidol – Y ffocws yn ystod y gweithgaredd yma yw cadwyni bwyd. Disgwyliad i’r disgyblion i ymchwilio i nifer fawr o gadwyni bwyd gwahanol. Yn ystod y dasg yn sicrhau gwellwyd elfennau llythrennedd wrth iddynt ddefnyddio’r derminoleg gywir er mwyn echangu ei ymchwil. Ar ôl ymchwilio i gadwyni bwyd disgwyliad i’r disgyblion i greu cadwyn fwyd eu hun ar feddalwedd priodol o’i ddewis nhw ar unrhyw ddyfais electroneg.

Sgiliau

Llythrennedd – “Sgil a ddatblygwyd yn sicrhau yn ystod y weithgaredd yw sut i “defnyddio strwythur penodol wrth ysgrifennu” (Llywodraeth Cymru, 2008).

Rhifedd – “pictogramau lle bydd un symbol yn cynrychioli mwy nag un uned drwy ddefnyddio allwedd” (Llywodraeth Cymru, 2008).

Cymhwysedd Digidol – “dod o hyd i wybodaeth briodol gan ddefnyddio gwahanol allweddeiriau a thechnegau chwilio” (Llywodraeth Cymru, 2008).

Successful Futures

Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales
Professor Graham Donaldson CB
February 2015

Diweddglö



Sail y Cwricwlwm Drafft 2022 yw pedwar diben yr Athro Donaldson yn sicrhau wrth i fod disgybl fod yn “Ddysgwyr uchelgeisiol... cyfranwyr mentrus... dinasyddion egwyddorol... unigolion iach, hyderus” (Donaldson, 2015).

Amlinellwyd yn y ddogfen Cwricwlwm Drafft 2022 maent yn hollbwysig i “ystyried llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol wrth gynllunio cwricwlwm lefel ysgol ar draws pob maes dysgu a phrofiad” (Llywodraeth Cymru, 2019).

Felly yn cyfiawnhau bod dysgu’n drawsgwricwlaidd yn rhan annatod i ddyfodol ysgolion yng Nghymru. Ymhelaethwyd y ddogfen mae dysgu’n drawsgwricwlaidd yn sicrhau mi fydd disgyblion yn “cael digon o gyfleoedd i’w datblygu, eu hehangu a’u cymhwyso ym mhob rhan o’r cwricwlwm” (Llywodraeth Cymru, 2019).

Darllen pellach

. Barnes, J. (2011). Cross Curricular Learning 3-14. 2il arg. Llundain: Sage.

. Llywodraeth Cymru (2008) <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol-fersiwn-cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith/>

. Llywodraeth Cymru (2008) <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-cymhwysedd-digidol-fersiwn-cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith/>

- Rhestr Cyfeiriadau

- Barnes, J. (2011). Cross Curricular Learning 3-14. 2il arg. Llundain: Sage.
-
- Donaldson, G. (2015) *Successful Futures*. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/successful-futures.pdf> (Darllenwyd: 5 Rhagfyr 2019)
-
- Estyn (2016) *Themâu trawsgwricwlaidd sy'n datblygu medrau allweddol disgyblion*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/themâu-trawsgwricwlaidd-sy'n-datblygu-medrau-allweddol-disgyblion> (Darllenwyd: 8 Rhagfyr 2019)
-
- Hayes, D. (2010) *The seductive charms of a cross-curricular approach*. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/03004270903519238> (Darllenwyd: 6 Rhagfyr 2019)
-
- Llywodraeth Cymru (2019) *Canllaw i Gwricwlwm i Gymru 2022*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/64353d33-3104-4466-8f4e-15d8cf938c5a/canllaw-i-gwricwlwm-i-gymru-2022.pdf> (Darllenwyd: 6 Rhagfyr 2019)
-
- Llywodraeth Cymru (2019) *Canllawiau statudol drafft maes dysgu a phrofiad dyniaethau*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/3f07f915-9118-4fb1-9d02-207a2f34eaa0/canllawiau-statudol-drafft-dyniaethau.pdf> (Darllenwyd: 7 Rhagfyr 2019)
-
- Llywodraeth Cymru (2019) *Canllawiau statudol drafft maes dysgu a phrofiad mathemateg*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/7cd157a6-2eb4-46c4-8e0d-af9d1b5f4f62/rhaglen-astudio-ar-gyfer-mathemateg.pdf> (Darllenwyd: 7 Rhagfyr 2019)

- Llywodraeth Cymru (2019) *Fframwaith Cymhwysedd Digidol*. Ar gael yn:
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-cymhwysedd-digidol-fersiwn-cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith/#eyJpljpbeyJhljoxfV0slmMiOlt7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6M> (Darllenwyd: 6 Rhagfyr 2019)
-
- Llywodraeth Cymru (2008) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. Ar gael yn:
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol-fersiwn-cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith/> (Darllenwyd: 6 Rhagfyr 2019)
-
- Savage, J. (2010) Cross-curricular teaching and learning in the secondary school. Ar gael yn:
https://scholar.google.co.uk/scholar?q=jonathan+savage+cross+curricular+teaching+online&hl=en&as_sdt=0&as_vis=1&oi=scholart (Darllenwyd: 8 Rhagfyr 2019)
-
-
- Twinkl (2018) *What is cross-curricular?* Ar gael yn: <https://www.twinkl.co.uk/teaching-wiki/cross-curricular> (Darllenwyd: 10 Rhagfyr 2019).
-
- Wales Online (2017) *The man behind Wales' new curriculum on the purpose of education, exams and statistics*. Ar gael yn:
<https://www.walesonline.co.uk/news/education/graham-donaldson-interview-wales-curriculum-13812153> (Darllenwyd: 6 Rhagfyr 2019)
-